# Pamffled Wybodaeth:
# Trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer datrys anghytundebau a'r hawl i apelio

## Beth dylwn i ei wneud os ydw'n anghytuno â phenderfyniad am anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a wneir gan ysgol neu ynghylch Cynllun Datblygu Unigol (CDU) Ysgol?

Er nad oes hawl i apelio i'r Tribiwnlys Addysg mewn perthynas â phenderfyniadau am ADY a wneir gan ysgol, **gellir apelio yn erbyn penderfyniad awdurdod lleol wrth ailystyried penderfyniad ysgol ar ADY neu CDU y mae'r ysgol yn ei gynnal.** Os ydych eisiau ac yn achos penderfyniadau gan ysgol a gynhelir, neu CDUau a gynhelir gan ysgol, gallwch wneud cais i awdurdod lleol ailystyried y mater.

*Cyfeiriwch at y Pamffled Wybodaeth: Trefniadau datrys anghytundebau a ceisiadau ailystyriaeth am ragor o wybodaeth am ailystyriaeth gan awdurdodau lleol*

## Beth dylwn i ei wneud os ydw'n anghytuno â phenderfyniad am anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a wneir gan sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol, neu ynghylch Cynllun Datblygu Unigol (CDU)?

'Rydym yn annog plentyn, rhiant y plentyn neu berson ifanc i godi unrhyw bryderon cyn gynted â phosibl. Dylai'r awdurdod lleol ystyried unrhyw bryderon a gweithredu arnynt yn briodol, er enghraifft esbonio penderfyniadau neu faterion eraill, neu, os yn briodol, diwygio CDU.

**Gallwch gysylltu gyda'ch Cydlynydd dynodedig**. Mae'r manylion cyswllt perthnasol i'w canfod yn yr Hysbysiad(au) ADY 'rydych wedi dderbyn gan yr ysgol / awdurdod lleol.

Os ydych yn mynychu sefydliad addysg bellach (SAB) gallwch gysylltu gyda Cydlynydd ADY y SAB. Mae'r manylion cyswllt perthnasol i'w canfod yn yr Hysbysiad(au) ADY 'rydych wedi dderbyn gan y SAB.

contact details can be found in the ALN Notice(s) that you will have received from the FEI.

Mae modd hefyd i chi ddefnyddio trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer datrys anghytundebau. Gallwch **drafod y mater gyda Swyddog Ansawdd ADY a Chynhwysiad** eich ysgol. Gallwch e-bostio'r Swyddog Ansawdd ADY a Chynhwysiad Ardal yn uniongyrchol gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost yn y tabl isod, neu ffonio 01286 679007.

| Swyddog Ansawdd ADY a Chynhwysiad (Ardal) | Manylion Cyswllt |
|---|---|
| **Non Samuel** | GweinyddolADYaCh@gwynedd.llyw.cymru |
| **Haf Roberts** | GweinyddolADYaCh@gwynedd.llyw.cymru |
| **Lora Glynwen Williams** | GweinyddolADYaCh@gwynedd.llyw.cymru |
| **Clare Trappe Roberts** | GweinyddolADYaCh@gwynedd.llyw.cymru |
| **Heather Melton** | GweinyddolADYaCh@gwynedd.llyw.cymru |
| **Sian Emlyn Jones** (Ôl-16) | GweinyddolADYaCh@gwynedd.llyw.cymru |

Yn achos plant o dan oedran ysgol gorfodol nad ydynt mewn ysgol gallwch **drafod y mater gyda Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar**. Gallwch e-bostio'r Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar yn uniongyrchol gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost yn y tabl isod, neu ffonio 01286 679007.

| Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar | Manylion Cyswllt |
|---|---|
| **Ellen Jones** (Gwynedd a Môn) | GweinyddolADYaCh@gwynedd.llyw.cymru |

Yn achos pobl ifanc (Ôl-16) gallwch **drafod y mater gyda Swyddog Ansawdd ADY a Chynhwysiad (Ôl-16).** Gallwch e-bostio'r Swyddog Ansawdd ADY a Chynhwysiad (Ôl-16) yn uniongyrchol gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost yn y tabl isod, neu ffonio 01286 679007.

| Swyddog Ansawdd ADY a Chynhwysiad (Ôl-16) | Manylion Cyswllt |
|---|---|
| **Sian Emlyn Jones** (Ôl-16 Gwynedd & Môn) | ADY16@gwynedd.llyw.cymru |

Gallwch hefyd **gysylltu â'r gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol Datrys Anghytundebau sef SNAP Cymru** ar 0808 801 0608 os dymunwch gyngor neu gymorth annibynnol. Gallent hwy eich rhoi mewn cysylltiad hefyd ar gyfer trefniadau anffurfiol sydd ar gael i ddatrys neu atal unrhyw anghytundeb rhyngoch chi a'r awdurdod lleol.

Nid yw'n orfodol defnyddio'r trefniadau datrys anghytundeb yr awdurdod lleol ac hyn ac ni fydd ymrwymo i drefniadau datrys anghytundebau yn effeithio ar unrhyw hawliau i apelio i'r Tribiwnlys.

## Hawliau clir a chyson i apelio

Mae **hawliau clir a chyson i apelio** yn un o nodau y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Os na all anghytundebau ynghylch penderfyniadau a wnaed mewn perthynas ag ADY neu CDU gael eu datrys yn lleol, mae’r Ddeddf yn sicrhau bod gan blant a phobl ifanc (ynghyd â’u rhieni/gofalwyr yn achos plant o dan 16 oed) yr hawl i apelio i dribiwnlys.
Mae’r Hysbysiad(au) ADY ‘rydych wedi dderbyn gan y sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol hefyd yn cynnwys gwybodaeth am yr hawl i apelio i’r Tribiwnlys yn erbyn penderfyniadau a wnaed mewn perthynas ag ADY neu ynglŷn ag elfennau penodol o’r CDU.

**Beth mae Tribiwnlys Addysg Cymru yn ei wneud?**
Mae’r Tribiwnlys yn gwrando ac yn penderfynu ar apeliadau a cheisiadau sy’n ymwneud â phlant a phobl ifanc sydd ag ADY neu a allai fod ag ADY. Yn benodol, mae’n gwrando ac yn penderfynu ar apeliadau ynghylch penderfyniadau sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol yng Nghymru.

Hefyd, mae’r Tribiwnlys yn gwrando ar hawliadau ynghylch gwahaniaethu ar sail anabledd mewn perthynas ag ysgolion.

Mae’r Tribiwnlys Addysg yn annibynnol ar lywodraeth, awdurdodau lleol, ysgolion a sefydliadau addysg bellach; ac mae ei benderfyniadau yn rhwymo mewn cyfraith. Mae’r Tribiwnlys yn gallu gwneud penderfyniadau ynghylch gallu plentyn i ddeall materion sy’n ymwneud â’r system ADY, gan gynnwys yr hyn y mae cyflwyno apêl i Dribiwnlys yn ei olygu. Os bydd yn datgan nad oes gan blentyn allu digonol i ddeall, bydd y Tribiwnlys yn gallu penodi cyfaill achos i’r plentyn hwnnw os gwneir cais.

Mae Tribiwnlys hefyd yn gallu mynnu bod corff GIG yn darparu tystiolaeth ynghylch yr elfennau o apêl sy’n ymwneud ag iechyd a gall wneud argymhellion i gorff GIG ynghylch arfer ei swyddogaethau dan y Ddeddf ADY. Os bydd y Tribiwnlys yn gwneud argymhelliad i gorff GIG, rhaid i'r corff hwnnw adrodd yn ôl i'r Tribiwnlys yn nodi'r camau y mae wedi'u cymryd neu y mae'n bwriadu eu cymryd mewn ymateb i argymhelliad y Tribiwnlys; neu pam nad yw wedi cymryd ac nad yw'n bwriadu cymryd unrhyw gamau mewn ymateb i'r argymhelliad.

**Pa faterion y gellir eu hapelio?**

Caiff plentyn, rhiant plentyn neu berson ifanc apelio i’r Tribiwnlys ynghylch y materion canlynol:

- penderfyniad gan sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol ynghylch a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY;
- yn achos person ifanc, penderfyniad gan awdurdod lleol ynghylch a oes angen llunio a chynnal CDU;
- disgrifiad o ADY y person mewn CDU;
- y DDdY mewn CDU, neu’r ffaith bod DDdY wedi’i hepgor o CDU, yn cynnwys a yw cynllun yn nodi y dylid darparu’r DDdY yn Gymraeg;

- y ddarpariaeth sydd wedi'i chynnwys mewn CDU gan awdurdod lleol o dan adrannau 14(6) neu 19(4) neu'r ffaith nad yw darpariaeth o dan yr adrannau hynny mewn cynllun;
- yr ysgol a enwir mewn CDU at ddiben derbyn plentyn mewn sefydliad a enwir[9], neu os na enwir ysgol mewn CDU at ddiben derbyn;
- penderfyniad gan yr awdurdod lleol i beidio ag adolygu CDU pan ofynnwyd i'r awdurdod lleol gan blentyn, rhiant plentyn neu berson ifanc ailystyried CDU sy'n cael ei gynnal gan ysgol a gynhelir;
- penderfyniad gan awdurdod lleol i beidio ag ysgwyddo cyfrifoldeb am CDU, a gynhelir gan ysgol, pan ofynnwyd iddo wneud hynny gan blentyn neu ei riant, gan berson ifanc neu gan gorff llywodraethu'r ysgol honno[11];
- penderfyniad i roi'r gorau i gynnal CDU;
- os gwrthodir penderfynu ar fater ar y sail nad oes newid sylweddol mewn anghenion neu nad oes unrhyw wybodaeth newydd sy'n effeithio'n sylweddol ar y penderfyniad.

**Os ydw i'n defnyddio trefniadau datrys anghytundebau yr awdurdod lleol, ydw i cadw fy hawl i apelio i'r Tribiwnlys?**

Nid yw'n orfodol defnyddio'r trefniadau datrys anghytundeb yr awdurdod lleol ac hyn ac ni fydd ymrwymo i drefniadau datrys anghytundebau yn effeithio ar unrhyw hawliau i apelio i'r Tribiwnlys.

**Pwy gall apelio i'r Tribiwnlys?**

Mae'r Ddeddf ADY 2018 yn rhoi'r hawl i blentyn neu person ifanc (ynghyd â'u rhieni/gofalwyr yn achos plant o dan 16 oed) apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn penderfyniad sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol ynghylch penderfyniadau a wnaed mewn perthynas ag ADY neu CDU.

**A all plant wneud eu hapêl eu hunain?**

Caiff plant ddod â'u hapeliadau eu hunain i'r Tribiwnlys os oes ganddynt ddigon o alluedd (neu ddealltwriaeth) i wneud hynny. Pan fo angen, caiff y Tribiwnlys wneud penderfyniadau am allu plentyn i ddeall materion sy'n ymwneud â'r system ADY.

Caiff plant nad oes ganddynt alluedd dal ddod ag apêl i'r Tribiwnlys yn eu henw eu hunain, gyda chyfaill achos i'w cynrychioli a'u cefnogi ac i wneud penderfyniadau ar eu rhan os nad oes ganddynt riant sy'n fodlon neu'n alluog i ddod ag apêl i'r Tribiwnlys ar ran y plentyn.

**Pryd gallaf apelio i'r Tribiwnlys?**
Mae terfyn amser o 8 wythnos ar gyfer apelio i'r Tribinwlys Addysg Cymru. Rhaid i'r Tribiwnlys Addysg Cymru cael eich apêl a'r datganiad achos ategol (tystiolaeth) **ar bapur** heb fod yn hwyrach na'r diwrnod gwaith cyntaf ar ôl diwedd y cyfnod o 8 wythnos gan ddechrau â'r dyddiad pan roddwyd yr hysbysiad

Os yw plentyn, rhiant plentyn neu berson ifanc yn penderfynu defnyddio trefniadau datrys anghytundebau, estynnir y cyfnod 8 wythnos gan 8 wythnos arall

**Sut mae gwneud apêl i'r Tribiwnlys?**

Mae'r Tribiwnlys Addysg yn rhoi cyngor a chyfarwyddyd ar ei wefan ynghylch y broses apelio a'r gweithdrefnau i'w dilyn.

www.tribiwnlysaddysg.llyw.cymru

**Manylion cyswllt Tribiwnlys Addysg Cymru yw:**

Tribiwnlys Addysg Cymru
Uned Tribiwnlysoedd Cymru
Blwch SP 100
Llandrindod
LD1 9BW
Ffôn: 0300 025 9800
E-bost: tribiwnlysaddysg@llyw.cymru neu tribunal.Enquiries@gov.wales
Gwefan: www.tribiwnlysaddysg.llyw.cymru

**Ble allaf gael cymorth gyda'r broses apelio?**

Mae'r Tribiwnlys Addysg yn rhoi cyngor a chyfarwyddyd ar ei wefan www.tribiwnlysaddysg.llyw.cymru ynghylch y broses apelio a'r gweithdrefnau i'w dilyn.

Am ragor o wybodaeth gallwch gysylltu gyda Tîm Gweinyddol ADYaCh yr awdurdod lleol drwy e-bostio GweinyddolADYaCH@gwynedd.llyw.cymru neu ffonio 01286 679007.

Gallwch **gysylltu â'r gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol Datrys Anghytundebau sef SNAP Cymru** ar 0808 801 0608 os dymunwch gyngor neu gymorth annibynnol.

**Pa benderfyniadau gall Tribiwnlys Addysg Cymru ei wneud, ar ôl clywed apêl?**

- gwrthod yr apêl;
- gorchymyn bod gan berson, neu nad oes gan berson, ADY o fath a bennir yn y gorchymyn;
- gorchymyn i sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol lunio CDU;
- gorchymyn i sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol ddiwygio CDU fel a bennir yn y gorchymyn;
- gorchymyn i ysgol, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol barhau i gynnal CDU (gyda diwygiadau neu hebddynt);
- gorchymyn i awdurdod lleol gymryd drosodd y cyfrifoldeb am gynnal CDU;
- gorchymyn i sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol adolygu CDU;
- anfon yr achos yn ôl i sefydliad addysg bellach sy'n gyfrifol am y mater neu i'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y mater er mwyn iddo ailystyried, ar ôl rhoi sylw i unrhyw sylwadau a wneir gan y Tribiwnlys, a oes angen gwneud penderfyniad gwahanol neu gymryd camau gwahanol.

## Beth dylwn i ei wneud os ydw i'n anhapus gyda'r ddarpariaeth iechyd o fewn Cynllun Dysgu Unigol (CDU) neu Gynllun Gofal Iechyd Unigol?

Os yn fater GIG (Bwrdd Iechyd), h.y. pryder am ofal, wasanaeth neu driniaeth sy'n cael ei sicrhau gan gorff GIG (unai yn cael ei ddisgrifio yn adran 2C o'r CDU, neu yn ofal neu driniaeth arall), siaradwch â'r staff GIG perthnasol cyn gynted â phosibl. Os nad ydych yn teimlo'n gyfforddus yn siarad â nhw'n uniongyrchol, neu os ydych yn teimlo nad yw'r mater wedi cael ei ddatrys gallwch drafod gyda Tîm Cwynion Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, neu ddefnyddio gweithdrefn gwyno y GIG yng Nghymru 'Gweithio i Wella / *Putting Things Right'*

**Manylion Cyswllt Tîm Cwynion Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr**

Ffurflen Ar-Lein Cyflwynwch eich cwyn ar-lein (gwefan SmartSurvey)
https://bipbc.gig.cymru/cysylltwch-a-ni/cysylltwch-a-ni/cwyno/

| | |
|---|---|
| Ffôn: | 03000 851234 |
| E-bost | BCU.TimPryderon@wales.nhs.uk |
| Cyfeiriad | Tîm Cwynion, Ysbyty Gwynedd, Bangor, Gwynedd, LL57 2PW |

**Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (SACDA / DECLO)**

(sef y swyddog sy'n gyfrifol am gydlynu swyddogaethau'r Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr mewn perthynas â phlant a phobl ifanc ag ADY)

Fel rhan o'r rôl, y Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (SACDA) sydd yn gyfrifol am oruchwylio unrhyw gŵyn neu anghytundeb sy'n ymwneud ag arfer swyddogaethau'r Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr o dan y Ddeddf ADY 2018. Gallai hyn gynnwys cymryd camau uniongyrchol i ddatrys y gŵyn neu'r anghydfod, neu sicrhau bod system gadarn yn ei lle i dynnu partïon ynghyd er mwyn ceisio datrys y sefyllfa yn gynnar.

**Manylion Cyswllt Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (SACDA) Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr**

Liz McKinney

| | |
|---|---|
| Ffôn: | 03000 846993 |
| E-bost | BCU.DECLO@wales.nhs.uk |

## Gwybodaeth am dulliau eraill o herio

Yn ogystal ag apelio i Dribiwnlys Addysg Cymru, gall dysgwyr a'u teuluoedd ddefnyddio sawl dull arall o herio corff cyhoeddus os ydynt yn teimlo bod y corff wedi methu â chyflawni ei ddyletswyddau cyhoeddus, gan gynnwys y dyletswyddau o dan y Ddeddf ADY 2018.

**Gweithdrefn gwyno yr ysgol**
Cyfeiriwch at Bolisi Cwynion Ysgol eich plentyn am drefn cwyno yr ysgol.

**Gweithdrefn gwyno y Sefydliad Addysg Bellach (SAB)**
Cyfeiriwch at Bolisi Cwynion y Sefydliad Addysg Bellach (SAB) am drefn cwyno y SAB.

**Gweithdrefn gwyno yr awdurdod lleol**
Gallwch gyflwyno cwyn i'r Cyngor os ydych yn anhapus gyda safon y gwasanaeth yr ydych wedi ei dderbyn gan y Cyngor, neu os ydych yn anhapus gyda rhywbeth y mae'r Cyngor, neu aelod o staff, wedi ei wneud neu wedi methu ei wneud.
Gwefan: Cyflwyno cwyn ar-lein:
www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Cysylltu-â-ni/Cwyn-ffurfiolCanmoliaeth.aspx
E-bost: cwynion@gwynedd.llyw.cymru
Ffôn: 01766 771000
Gweld polisi pryderon a chwynion Cyngor Gwynedd neu Copi Hawdd ei Ddarllen o bolisi pryderon a chwynion Cyngor Gwynedd

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**
Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn gallu ystyried cwynion gweithdrefnol am ddarparwr gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau lleol a chyrff y GIG.
Gwefan: www.ombwdsmon.cymru
E-bost: holwch@ombwdsmon.cymru
Ffôn: 0300 790 0203

**Comisiynydd Plant Cymru**
Mae gan Gomisiynydd Plant Cymru wasanaeth ymchwiliadau a chyngor am ddim a all ddarparu cymorth gyda chwynion a materion sy'n ymwneud â'r system ADY.
Gwefan: www.complantcymru.org.uk
E-bost: cyngor@complantcymru.org.uk
Ffôn: 01792 765600 / Rhadffôn: 0808 801 1000

**Comisiynydd y Gymraeg**
Gall Comisiynydd y Gymraeg ystyried cwynion am sefydliadau yng Nghymru nad ydynt yn glynu at y safonau priodol mewn perthynas â'r Gymraeg.
Gwefan: www.comisiynyddygymraeg.cymru
E-bost: post@cyg-wlc.cymru
Ffôn: 0345 6033 221